Dioddefwyr Troseddau – cymorth a chyngor yng Ngogledd Cymru

Bydd yr heddlu yn trosglwyddo gwybodaeth amdanoch i Gymorth i Ddioddefwyr fel y gallant gynnig help a chymorth i chi, oni bai eich bod yn gofyn i'r heddlu beidio â gwneud hynny.

Bydd yr heddlu yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eich achos yn fisol o leiaf ac yn rhoi gwybod i chi os caiff rhywun ei arestio, ei ryddhau ar fechnïaeth neu'n cael rhybudd mewn cysylltiad â'ch achos, oni bai eich bod yn gofyn iddynt beidio â gwneud hynny.

SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Dioddefwyr Troseddau – cymorth a chyngor

Yn gyntaf, diolch i chi am roi gwybod am y drosedd i'r heddlu. Mae rhoi gwybod am drosedd yn gam cyntaf hanfodol yn y broses o ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell.

Mae'r daflen hon yn esbonio beth fydd yn digwydd nawr.

Mae gwefan y System Cyfiawnder Troseddol yn **www.cjsonline.gov.uk** yn cynnwys mwy o wybodaeth i ddioddefwyr troseddau, fel adrannau penodol ar 'Help and Support' a 'Going to Court'.

Yr heddlu

Nawr eich bod wedi rhoi gwybod am drosedd i'r heddlu, byddant yn penderfynu beth i'w wneud nesaf. Er enghraifft, efallai y byddant yn dechrau ymchwiliad i geisio datrys y drosedd. Ble bynnag y bo'n bosibl, dylech:

- roi cymaint o wybodaeth ag y gallwch iddynt am y drosedd, yn cynnwys beth ddigwyddodd a beth a welsoch ac a glywsoch;
- rhoi gwybod iddynt os ydych yn poeni am eich diogelwch eich hun neu ddiogelwch eich teulu neu eich preifatrwydd – mae cymorth ar gael os byddwch yn teimlo dan fygythiad (gweler isod);
- rhoi gwybod iddynt os gwnaed y drosedd yn waeth gan gamdriniaeth neu gasineb yn gysylltiedig â hil, rhywioldeb, crefydd neu anabledd;
- rhoi gwybod iddynt am unrhyw anghenion penodol sydd gennych a fyddai'n helpu'r heddlu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl – er enghraifft, gofynion crefyddol neu broblem iechyd.

Bydd yr heddlu yn rhoi manylion cyswllt i chi, felly os bydd angen i chi gysylltu â hwy eto ar ôl gwneud eich datganiad, gallwch siarad â rhywun sydd eisoes yn gyfarwydd â'ch sefyllfa. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cynnwys:

Enw gorsaf yr heddlu	
Prif rif ffôn gorsaf yr heddlu	
Enw'r swyddog sy'n delio â'ch achos	
Safle a rhif y swyddog sy'n delio â'ch achos	
Rhif cyfeirnod y drosedd	
Rhif ffôn y ddesg drosedd (os oes un)	

Cadwch y manylion hyn wrth law. Dylech gysylltu â'r heddlu eto os byddwch, er enghraifft: yn cofio mwy o fanylion am y digwyddiad; yn canfod bod mwy o golled neu ddifrod nag a feddyliwyd gyntaf o ganlyniad i'r digwyddiad; neu os cawsoch eich anafu yn ystod y drosedd a bod yr anafiadau bellach yn ymddangos yn fwy difrifol nag yr oeddent ar y pryd.

Hefyd dylech ddweud wrth yr heddlu os byddwch yn newid eich cyfeiriad neu rif ffôn fel y gallant roi gwybod i chi os bydd rhywun wedi cael ei arestio, ei ryddhau ar fechnïaeth neu ei rybuddio mewn cysylltiad â'r drosedd.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd yr heddlu yn penderfynu p'un a oes digon o wybodaeth i ymchwilio i'r drosedd. Gallai hyn gynnwys cymryd datganiadau a siarad â thystion neu gynnal profion fforensig. Beth bynnag fydd yn digwydd, cewch wybod p'un a fydd ymchwiliad pellach i'r drosedd ai peidio neu os caiff yr ymchwiliad ei gau a'r rheswm pam. Cewch wybod os caiff rhywun a ddrwgdybir ei arestio, ei gyhuddo, ei ryddhau ar fechnïaeth neu fod cytundeb wedi'i gyrraedd y tu allan i'r llys fel rhybudd neu gerydd. Os caiff y troseddwr ei adnabod a'i fod o dan 18 oed, efallai y bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cysylltu â chi ynglŷn â chymryd rhan mewn proses adfer.

Mynd i'r llys

Os bydd eich achos yn mynd i'r llys bydd y canlynol yn digwydd:

- bydd yr Uned Gofal Tystion yn cysylltu â chi. Nhw fydd eich unig bwynt cyswllt drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol, nhw fydd yn darparu cymorth ymarferol i chi ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch;
- os bydd gofyn i chi roi tystiolaeth, cewch gynnig cymorth gan Wasanaeth Tystion Cymorth i Ddioddefwyr, sy'n gyfrinachol ac am ddim.

Y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Mae gan ddioddefwyr troseddau hawl i gael safonau gwasanaeth gofynnol gan y System Cyfiawnder Troseddol o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau. Ymhlith y safonau hyn mae:

- hawl i gael eich cyfeirio at Gymorth i Ddioddefwyr neu gael gwybodaeth am y mathau o gymorth sydd ar gael yn eich ardal;
- hawl i gael eich hysbysu o'r cynnydd yn eich achos o leiaf bob mis a chael gwybod pan fydd datblygiad mawr yn eich achos, er enghraifft, os caiff rhywun ei arestio neu ei gyhuddo;

- hawl i gael gwybod os caiff cyhuddiad ei ollwng neu os bydd newid mawr i'r cyhuddiad;
- hawl i gael gwybod am ddyddiadau gwrandawiadau llys a chael gwybod os bydd eich angen fel tyst;
- hawl i gael eich hysbysu am ganlyniad achos yn cynnwys, os bydd y troseddwr yn euog, gwybodaeth am y ddedfryd a roddwyd ac unrhyw apeliadau.

Os na fyddwch yn cael y lefel o wasanaeth a nodir yn y Cod Ymarfer, gallwch gwyno. I gael rhagor o wybodaeth am y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau ac i gael gwybodaeth am sut i gwyno neu ddarparu adborth ar y gwasanaeth a dderbyniwch, gofynnwch i'r heddlu am gopi o'r daflen 'Cod Ymarfer: Canllaw i Ddioddefwyr', neu edrychwch ar y wefan **www.cjsonline.gov.uk**

Iawndal

Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol

Os ydych wedi cael eich anafu mewn trosedd dreisgar, gallwch wneud cais am daliad o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, gofynnwch am y daflen 'Dioddefwyr Troseddau Treisgar - Canllaw i Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol'. Gallwch gael hon gan yr heddlu, gan Gymorth i Ddioddefwyr, o'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf neu gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (ffôn: **0800 358 3601**; gwefan: **www.cica.gov.uk**).

Y Biwrô Yswirwyr Modurol

Os byddwch yn dioddef anaf, colled neu ddifrod i'ch eiddo o ganlyniad i ddigwyddiad traffig ffordd yn ymwneud â cherbyd modur, byddwch fel arfer yn gymwys i gael taliad a wnaed gan gwmni yswiriant perchennog y cerbyd. Os na fydd y cerbyd wedi'i yswirio, mae'n bosibl y gallech hawlio iawndal gan y Biwrô Yswirwyr Modurol. Os na fydd yr heddlu wedi olrhain y troseddwr, dim ond iawndal am anaf personol fydd ar gael. I wneud cais, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Biwrô Yswirwyr Modurol (ffôn: **01908 830001**; gwefan: **www.mib.org.uk**).

Diogelu yn erbyn trosedd ac aflonyddwch

Gall yr heddlu gynnig cyngor atal troseddau am ddim. Gallech hefyd gael gwybodaeth ddefnyddiol yng nghanllaw atal troseddau y Swyddfa Gartref, 'Eich Canllaw Ymarferol i Atal Troseddau'. Gofynnwch i'r heddlu am gopi.

Mae'n drosedd gwneud i berson arall ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn. Mae hefyd yn drosedd codi ofn ar rywun arall, er enghraifft, drwy 'stelcio'. Os ydych wedi dioddef aflonyddwch neu ofn trosedd a bod y troseddwr wedi'i ddal a'i gollfarnu, gall y llys troseddau drefnu gorchymyn atal i'w rwystro rhag dod yn agos atoch i'ch bygwth neu i godi ofn arnoch. Gallwch hefyd ofyn i lys sifil am waharddeb i atal rhywun rhag ymddwyn yn fygythiol.

Cymorth a chyngor yng Ngogledd Cymru

Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol Gogledd Cymru yn ymrwymedig i roi cymorth i ddioddefwyr troseddau. Mae'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Unedau Gofal Tystion, y llysoedd, Y Gwasanaeth Prawf, Timau Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Carchardai yn gweithio gyda'i gilydd i hysbysu dioddefwyr ar bob cam o'r broses cyfiawnder troseddol. Byddwn yn cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar ddewis y dioddefwr. Byddwn hefyd yn defnyddio cyfieithwyr i hwyluso cyfathrebu drwy ieithoedd eraill.

Rydym yn awyddus i gael adborth ar eich profiad o'r broses cyfiawnder troseddol. Anfonwch eich sylwadau at Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru:

- ewch i **www.lcjb.cjsonline.gov.uk/northwales** a llenwch ffurflen adborth; neu
- ysgrifennwch at: Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, Pencadlys Is-adrannol yr Heddlu, Cymunedau Diogel, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Trosedd ac am gyngor atal troseddau defnyddiol, ewch i **www.north-wales.police.uk**.

Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru

Gall Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru gynnig rhywun i chi siarad â hwy yn gwbl gyfrinachol, gwybodaeth am iawndal a materion yswiriant, cyfeiriadau uniongyrchol at ffynonellau cymorth eraill, a help â materion fel aflonyddu neu deimlo dan fygythiad.

Beth os cewch eich galw i ymddangos fel tyst mewn llys?

Mae **Uned Gofal Tystion Gogledd Cymru** yn cynnig cymorth am ddim i dystion cyn, yn ystod ac ar ôl ymddangos mewn llys. Maent hefyd yn cynnig gwasanaeth arbenigol ar gyfer tystion ifanc. Bydd Uned Gofal Tystion Gogledd Cymru yn cysylltu â chi, a bydd yn cynnig un pwynt cyswllt a rhif ffôn i chi.

Sut i gysylltu â Chymorth i Ddioddefwyr

Gellir cysylltu â Chymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru ar 0845 241 2410 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am – 5pm).

Ebost: Gaynor.Mckeown@northwalesvictimsupport.org

Beth os bydd angen i chi roi gwybod am drosedd yn y dyfodol?

Ar gyfer galwadau brys yn unig, ffoniwch 999.

Ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys, ffoniwch yr heddlu ar un o'r rhifau canlynol:

Heddlu Gogledd Cymru – llinell Gymraeg: 0845 607 1001
Heddlu Gogledd Cymru – llinell Saesneg: 0845 607 1002

Cysylltwch â **Taclo'r Tacle** yn ddienw ar 0800 555 111 os oes gennych wybodaeth am drosedd.

Help gan Gymorth i Ddioddefwyr

Gallwch gael eich effeithio gan drosedd yn emosiynol neu'n gorfforol ac mewn llawer o ffyrdd gwahanol neu anrhagweladwy. Mae'r teimladau hyn yn gyffredin. Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen annibynnol genedlaethol i bobl yr effeithir arnynt gan drosedd. Mae'n darparu gwasanaeth cyfrinachol ac am ddim. Mae staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn cynnig gwybodaeth, cymorth a help ymarferol.

Gallwch gysylltu â'r Llinell Gymorth i Ddioddefwyr ar **0845 30 30 900**

Neu, os byddai'n well gennych, gallwch ysgrifennu at y Llinell Gymorth i Ddioddefwyr yn:
PO Box 11431, London SW9 6ZH

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr help sydd ar gael i chi fel dioddefwr trosedd yn **www.cjsonline.gov.uk**

Os nad ydych yn sicr am unrhyw beth yn y daflen hon, neu sut i gael yr help a'r cymorth sydd ar gael i chi, gofynnwch i'ch heddlu lleol am gyngor.

Mae'r daflen hon ar gael mewn fersiynau print bras a Braille, yn ogystal â nifer o ieithoedd gwahanol. Gofynnwch i'r heddlu os hoffech gael fersiwn arall.

CJS Swyddfa Gartref CPS dca Adran Materion Cyfansoddiadol Cyfiawnder, hawliau a democratiaeth

Y System Cyfiawnder Troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd

Cynhyrchwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol. Mawrth 2007
Cod archebu VOC/NORTHWALES Cyf ffeil: 279871